

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Y Pafiliynau, Cwm Clydach ddydd Iau, 17 Awst 2017 am 5.00pm.

PRESENNOL

Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S. Rees - Cadeirydd

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol

J. Bonetto
G. Caple

D. Grehan
L. Hooper

P. Jarman
S. Powell

J. Williams

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr S. Gale – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Materion Cynllunio
Mr S. Humphreys - Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol - Cynllunio a'r Amgylchedd
Mr C. Jones - Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Mr. S. Zeinali – Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd

35. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Cafodd ymddiheuriad dros absenoldeb ei dderbyn gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A. Davies-Jones, , G. Hughes and D.H. Williams.

36. DATGAN BUDDIANT

Ni chafodd unrhyw fuddiannau eu datgan mewn perthynas â materion yr agenda hyd at y cofnod yma yn yr agenda.

37. DEDDF HAWLIAU DYNOL A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNWYD – Nodi y dylai Aelodau'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu o'u blaen, rhoi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth wneud penderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

38. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

PENDERFYNWYD – Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrfn cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn

modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

39. **COFNODION**

PENDERFYNWYD – Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2017 yn rhai cywir.

40. **NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

41. **CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO YN YMWNEUD Â SIARADWYR CYHOEDDUS**

(1) Cais Rhif:17/0132 - Neuadd Eglwys bresennol gydag ystafelloedd cyfarfodydd, ystafelloedd dosbarthiadau, a chegin i'w newid yn 9 Fflat breswyl (derbyniwyd cynlluniau wedi'u diwygio ac arolwg ystlumod ar 29/03/17. Derbyniwyd arolwg Ystlumod ychwanegol ar 26/06/17), Neuadd Eglwys y Santes Fererid, Wyndham Crescent, Cardiff Road, Aberaman, Aberdâr

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr K Withers (Ymgeisydd). Cafodd e bum munud i roi ei farn ar y cais uchod.

Nododd y Pwyllgor nad oedd Mr R Stuckey (Asiant), oedd wedi gwneud cais i gyflwyno ei gefnogaeth at y cais uchod i Aelodau, yn bresennol i wneud hyn.

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Datblygu y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

(2) Cais rhif: 17/0650 - Dymchwel Garej a'i Ailadeiladu tir gyferbyn â 28/29 The Avenue, Pont-y-gwaith, Glynrhedynog.

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol. Cafodd pob un bum munud i roi ei farn ar y cais uchod:-

- Mr Withers (Ymgeisydd)
- Mrs Evans – (Gwrthwynebwraig)

Nododd y Pwyllgor fod Mrs Isaac a Mrs Jenkins, a oedd wedi gofyn i siarad,

wedi gwrthod y cyfle i wneud hynny.

Siaradodd y Cynghorwyr Lleol dydyn nhw ddim ar y Pwyllgor, LM Adams a R Bevan, am y cais a chyflwyno eu pryderon.

Rhoddodd Rheolwr Gwasanaethau Datblygu wybod i Aelodau am lythyr hwyr a dderbyniwyd gan Mr a Mrs Evans, Mr Gregory a D ac E Isaac, a oedd yn cynnwys ffotograffau o safle'r cais.

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaethau Datblygu y cais i'r Pwyllgor, ac ar ôl ei drafod, **PENDERFYNWYD** – gohirio ystyried y cais i ganiatáu trafodaethau pellach rhwng y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio a'r Ymgeisydd parthed maint y modur dy arfaethedig a'i effaith ar yr ardal gyfagos.

42 CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO

Yn ei adroddiad, cafwyd manylion gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio mewn perthynas â cheisiadau a argymhellir ar gyfer eu cymeradwyo. **PENDERFYNWYD** -

- (1) Cymeradwyo Cais Rhif: 15/1501 - I gwblhau a chadw addasiadau - gan gynnwys uwchraddio cyfleusterau diogelwch, hygyrchedd ac amwynder yn ogystal â chreu 1 uned fyw ychwanegol, The New York Hotel, York Street, Porth. Yn amodol ar ychwanegu amod ychwanegol i gyfyngu'r datblygiad i ddosbarth defnydd A4
- (2) Cymeradwyo Cais 15/1629 - Ffens a wal floc yn rhwystr sain i draffordd yr M4 a llenwi pyllau bach gyda deunydd anadweithiol. (Daeth (Daeth disgrifiad, cynlluniau a dogfennau wedi'u newid i law ar 13 Ebrill 2016), Otters Brook Trout Pools, Trout Pools, Parc Ifor, Brynsadler, Pont-y-clun.
- (3) Cymeradwyo Cais Rhif: 17/0321 - Codi a gweithredu tyrbin gwynt am 25 mlynedd a ynghyd â'r gwaith o'i ddadgomisiynu gydag uchder cyffredinol o 121.5m, micrositing 20m, traciau mynediad newydd a gwella'r rhai presennol, ardaloedd sefydlog, adeilad rheoli / is-orsaf, trawsnewidydd a cheblau - Tir ger hen safle tirlenwi Nant-y-Gwyddon – yn amodol ar addasiad Amod 9:
 - Dim llwythi anghyffredin o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng yr 0700- 0900 a 16:00 -1800 oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: Yn sgil Diogelwch Priffyrdd yn unol â Pholisi AW5 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO

- 43 Cais rhif: 16 / 1181- Estyniad, Addasiad a Newid Defnydd Tafarn (Dosbarth A3) i fod yn 4 fflat ar gyfer myfyrwyr gydag ardal amwynderau / gwasanaeth yn y cefn The Bridge Inn, Bridge Street, Trefforest, Pontypridd.**

Gan gyfeirio at Gofnod 20 (Pwyllgor Cynllunio a Datblygu 20 Gorffennaf 2017) pan oedd yr Aelodau o blaid gwrthod y cais uchod oherwydd eu bod o'r farn nad oedd y datblygiad arfaethedig yn cynnwys parcio oddi ar y stryd ac felly byddai parcio ar y stryd yn amharu ar ddiogelwch y briffordd, eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio yn ei adroddiad y rhesymau dros wrthod y cais yn groes i'w argymhelliad.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio pe baent dal am wrthod y cais yna byddai'r rhesymau yn ei adroddiad yn adlewyrchu eu pryderon.

Ar ôl ystyried y mater, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad gwreiddiol y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

44 ADRODDIAD GWYBODAETH

PENDERFYNWYD gan Aelodau – derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Materion Cynllunio mewn perthynas â Phenderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a dderbyniwyd, Ceisiadau wedi'u Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda Rhesymau trwy'r drefn Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo, Crynodeb o'r Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi trwy'r drefn Ddirprwyo ar gyfer cyfnod 24/07/2017 a 04/08/2017.

**S.REES
CADEIRYDD**

Daeth y cyfarfod i ben am 5.50pm.